OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2021 (Cy.189)

PRIDIANNAU TIR, CYMRU

Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Diwygio) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - -	*8 Awst 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Awst 2010*
Yn dod i rym - -	*31 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheolau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Arglwydd Ganghellor gan adran 14 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975(**1**) ac sydd bellach wedi ei freinio ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Diwygio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 31 Awst 2010.

(2) Mae'r Rheolau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977

2. Yn Atodlen 3 (Ffioedd) i Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977(**3**), hepgorir eitem 5 (chwiliad personol yn y gofrestr gyfan neu mewn rhan ohoni).

Jane E. Hutt
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, un o Weinidogion Cymru

8 Awst 2010

(**1**) 1975, p.76. Diwygiwyd adran 14 gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) a chan adran 15(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (p.4) a pharagraffau 82 ac 85(1) o Ran 1 o Atodlen 4 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd pŵer yr Arglwydd Ganghellor dros wneud rheolau ar gyfer rhagnodi ffioedd a'r dull o dalu ffioedd, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1977/985. Amnewidiwyd Atodlen 3 yn ei chyfanrwydd gan O.S. 2003/2502.